Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
MAI 2007

DYDDIAD	Nos Fercher, 16eg Mai, 2007
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Llanwnda

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Croeso**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr is-gadeirydd TE yn absenoldeb y cadeirydd.

3. **Datgan Buddiant**

4. **Cadarnhau cofnodion** cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ar nos Fercher, Ebrill 18fed, 2007.

5. **Materion i'w trafod:**
   a) Cysgodfan bysiau Penffordd – MW wedi archwilio'r gwaith. Angen cadw golwg ar gyfer y dyfodol a'i archwilio eto ymhen blwyddyn.
   b) Lein Bryngwyn – clerc wedi anfon llythyr at Dilys Phillips i geisio prysuro pethau 'mlaen. Clerc i sgwennu at adran Dilys Phillips i ofyn wrthynt dalu'r £1,000 yn uniongyrchol i Dewi Pritchard Jones, gan nodi efallai y byddai Cyngor Llanwnda yn fodlon cyfrannu.
   c) Cynllun Uwchgwyrfai – BBC ac HTV yn awyddus gwneud rhaglen. Copi o ymateb anfonwyd at Alun Ffred Jones oddi wrth gadeirydd Cymad. Angen gyrru ateb at gadeirydd Cymad yn diolch am y llythyr ond yn nodi nad ydym yn fodlon gyda'r atebion i'r cwestiynau ynglyn â'r ffens.
   d) Stepiau sy'n arwain i'r mynydd ger Ochr Muriau – llythyr gan gynrychiolwyr y goron yn nodi nad oes cyfrifoldeb arnynt i atgyweirio'r stepiau. Angen mynd yn ôl at Steffan Jones i gael y sefyllfa ddiweddara.
   e) Cofeb Kate Roberts ar Lôn Wen – wedi cael cyfarfod safle gyda Steffan Jones, Cyng.Glyn Owen, Dewi Tomos a Kelvin Roberts – disgwyl adroddiad yn ôl gan Steffan Jones. Wedi awgrymu y dylid chwalu'r wal a rhoi'r gofeb ar y llwybr sy'n arwain i'r mynydd, i ffwrdd o'r lôn.
   f) NE – arwyddion30 yn Rhos Isaf – dim rheolaeth ar y ffordd sy'n arwain o Penyceunant i Pen y Groeslon a'r ffordd i Felinwnda. Heb gael ymateb hyd yma. Clerc i geisio cael atebion yn ystod cyfarfod bwriedig efo Steffan, fydd yn cael ei gynnal yn ystod wythnos 28-31ain o Fai.
   g) Arup – ymgynghoriad ar y ffordd osgoi o Lanwnda i Blas Menai – gwahoddiad i weithdy ar yr 17eg o Fai. EmJ a clerc i fynychu.
   h) Cwynion ynglyn â llygod mawr ger Tanrallt, Rhostryfan. Clerc wedi rhoi cwyn i'r Adran Iechyd yr Amgylchedd. Heb dderbyn ateb eto. Clerc i gysylltu efo'r adran eto drwy lythyr ac anfon copi o'r llythyr i'r

adran gynllunio ac at Cyng.Glyn Owen.

i) MW – ceir yn parcio yn y safle bysiau yn Penffridd. Clerc i roi gwybod i'r wardeiniaid parcio newydd.

j) MW – cwynion am blant yn yfed alcohol ar safle'r ysgol yn Rhosgadfan. Clerc i roi gwybod i'r heddwas Gwynfor Parry.

k) EmJ – angen eglurhâd o bolisi'r cyngor ynglyn â sut maent yn mynd ati i osod tai cyngor. Awgrymwyd y dylid ysgrifennu at Berwyn Parry Jones, Adran Dai, yn gofyn am gopi o'r polisi gosod tai diweddara.

l) TE – palmant Llanwnda. Clerc i holi Steffan. Hefyd angen ei holi ynglyn â'r gwaith bwriedig ar y ffordd rhwng Rhosgadfan a Rhostryfan.

m) Materion parcio ger y Becws, Rhostryfan – cafwyd gwybodaeth gan Meilir Hughes, Cyngor Gwynedd yn datgan fod y darn tir bellach yn mynd i broses dendro. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd na fyddai gan Gyngor Llanwnda ddiddordeb mewn tendro am y darn tir.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	21,960.11
Cyfri Siec:	402.62
CYFANSWM	22,362.73
Cyflog/costau clerc –	386.57
Cyllid y Wlad	94.93
Peti cash	150.00
Tâl Aelodaeth SLCC	85.00
Taliad ar gyfer diwrnod Cyn Filwyr	150.00
Wyn Williams	249.00
GWEDDILL	21,247.23

Cydnabyddiaeth nawdd gan Lleu ac Ambiwlans Awyr

Ffurflen diwedd blwyddyn gan Hacker Young – angen trefnu is-bwyllgor cyllid a gweinyddol. Clerc i drefnu'r cyfarfod naill ai ar ôl neu cyn cyfarfod gyda Steffan Jones 28-31ain Mai.

9. **Materion Cynllunio**

CO7A/0325/17/MW – Cais ar gyfer cymeradwyo amodau safle mwynau segur rhan 1, dan atolden 13, paragraff 9 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, caniatâd cynllunio rhif 2259 dyddiedig 11eg Rhagfyr 1951 – Chwarel Alexandra/Moeltryfan – angen anfon gair at yr Adran Gynllunio yn nodi'r sylwadau canlynol:
Gwrthwynebu'r awgrym y dylai'r loriau ddod drwy Rhostryfan, Rhos Isaf a Menai View. Nid yw'r ffordd yma'n addas ar gyfer loriau.
Hoffai'r aelodau gael cadarnhâd mai dau lwyth yn unig fydd yn cael ei gario o'r chwarel, boed hynny efo tractor a thrailer neu lori HGV, a hefyd hoffem gael gwybodaeth ynglyn â phwy fydd yn monitro'r sefyllfa.
Cyfyngu'r oriau gwaith yn y chwarel a'r cyfnod cario o'r chwarel i 8am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig.
Dim loriau i deithio drwy'r pentrefi cyfagos yn ystod amser agor a chau'r ysgolion, h.y. 8.30-9.00a.m. a 2.30-3.30p.m.
Ni ddylid caniatau loriau mwy na 15 tunnell – o ystyried y ffyrdd cul ac anaddas sy'n arwain at y chwarel a thrwy'r pentrefi cyfagos. Oni fyddai caniatau loriau mawrion yn rhoi pwysau ychwanegol ar Adran Briffyrdd Gwynedd i gynnal a chadw'r ffyrdd presennol?
Angen eglurhâd ar y term 'temporary' – am ba hyd y bydd y cynllun yn parhau?
Angen cadarnhâd o'r union ffordd drwy bentref Rhosgadfan.

CO7A/0292/24/LL – estyniad – Trem Arfon, Rhos Isaf – dim gwrthwynebiad.

Eisoes wedi'u caniatau:
Estyniad – Menai View, Dinas
Estyniad lolfa wydr – Llain Fadyn, Rhos Isaf
Gwrthodwyd:
Ty newydd – Gwyndre, Rhos Isaf

10. **Gohebiaeth:**

a) Gwahoddiad i agoriad Swyddogol Cae'r Gors.
b) Gwahoddiad i wasanaeth dadorchuddio cofeb yng Nghlwb Mountain Rangers ar y 3ydd o Fehefin.
c) Standards Board ar gyfer Lloegr – côd ymddygiad newdd ar gyfer aelodau o'r 3ydd o Fai ymlaen – angen checio gyda Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd os ydy hwn yn berthnasol i Gymru.
d) Asiantaeth yr Amgylchedd – apêl gan Cwmni Gwastraff Môn ac Arfon yn erbyn cau Cilgwyn – angen anfon nodyn i gefnogi'r apêl fydd yn golygu gohirio cau Cilgwyn am gyfnod.
e) Swyddfa Archwilio Cymru – nodyn i gadarnhau mai Hacker Young fydd yr archwilwyr allanol.
f) Cylchgronnau

11. Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:
NW – wal wedi malu rhwng Ysgol Rhosgadfan a'r ciosg. Nododd MW fod Steven Jones, Cyngor Gwynedd eisoes yn ymwybodol ac wedi bod yn tynnu lluniau o'r safle.
ElJ – llwybrau Cae Coch – wedi derbyn cwyn fod polyn wedi'i blygu a bellach braidd yn beryg. Clerc i roi gwybod i Wyn.
ElJ – angen checio fod caniatâd cynllunio ar y canlynol: arwyddion Dinas Garage, lolfeydd gwydr yn Bryn Rhug a Dolwar, Rhostryfan.
EmJ – angen gofyn wrth Aled Evans Davies, Swyddog Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd, sut y daeth polisi o sefydlu dim ond 25% o dai fforddiadwy mewn unrhyw ddatblygiad.
EE – nodi fod damweiniau wedi digwydd ger mynedfa Sain a gofyn am gael arwyddion arafu.
GVT – cysgodfan Penffordd – angen tynnu rhywfaint o'r banc tu ôl i'r gysgodfan er mwyn gwella mynedfa.
GVT – parcio yn Gwelfor a Tai Rhosgadfan
GVT – torri gwair cae chwarae Rhosgadfan
Nododd y clerc fod Wyn wedi'i hysbysu fod bin y fynwent wedi'i ddwyn, angen cysylltu efo'r cyngor i gael un newydd.

12. Dyddiad cyfarfod nesaf – Mehefin 20fed – i'w gadarnhau.

13. Daeth y cyfarfod i ben am 9.15p.m.